

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
[Â rhybudd]
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel
Dda
Clinig Deintyddol Friars**

14 Hydref 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheoli ac Arweinyddiaeth.....	12
	Roedd trafodaethau pellach gyda staff yn dangos nad oedd archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cadarnhawyd hyn trwy graffu ar gofnodion deintyddol cleifion, lle nad oedd unrhyw dystiolaeth o archwiliadau clinigol a oedd wedi'u gwirio gan ddeintyddion. Roedd sôn, gan reolwr y practis, am fentor clinigol a gynhaliu archwiliadau; fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o'r gwaith a wnaed.....	14
	Argymhelliad.....	14
	Rhaid i'r practis gynnal archwiliadau clinigol mewnol er mwyn sicrhau cysondeb ac arferion diogel.....	14
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	17

1. Cyflwyniad

Ar 14 Hydref 2014, cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ar Glinig Deintyddol Friars, rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yng Nghoedlan y Parc, Aberystwyth, SY23 1PB.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheoli ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda y mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.¹

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau'r practis, ei gyfarpar a'i safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan

¹ Daeth *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* i rym o 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn amlinellu'r gofynion a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob safle yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol i sicrhau eu bod yn cael adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi yn ystod arolygiad deintyddol yn cael eu hysbysu i'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wnaed, yn cael eu manylu yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Nodwch fod arolygiadau deintyddol yn cofnodi cipolwg o'r safonau a gafwyd yn y practis a ymwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Clinig Deintyddol Friars yn darparu gwasanaethau i oddeutu 4,900 o gleifion yn ardal Aberystwyth, Ceredigion. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a elwir yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un glanweithydd, tair nyrs ddeintyddol, un rheolwr practis ac un derbynnydd.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnwys:

- Triniaeth breifat a thriniaeth gan y GIG
- Glanweithydd

4. Crynodeb

Adolygodd AGIC yr hyn yr oedd Clinig Deintyddol Friars yn ei wneud er mwyn bodloni'r safonau yn 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru'.

Ar y cyfan, ni allem fod yn sicr bod y ddarpariaeth o ofal a thriniaeth ddeintyddol yn cael ei chefnogi gan ystod sefydledig o systemau a phrosesau rheoli a fyddai'n sicrhau bod gofal a thriniaeth i gleifion yn cael eu darparu mewn modd diogel ac amserol. Canfuom fod newid o ran perchnogaeth yn ddiweddar (1 Medi 2014), o Denticare Limited i Integrated Dental Holdings Group (IDH), ac felly yr oedd y practis mewn cyfnod o drawsnewid.

Bu hefyd nifer o newidiadau dros y blynyddoedd diwethaf o ran y deintyddion sy'n gweithio yng Nghlinig Deintyddol Friars ac mewn perthynas â rheolwr y practis, a oedd wedi bod yn absennol am gyfnod hir. Roedd hyn yn golygu nad oedd pobl yn debygol o gael gofal gan staff a oedd yn gyfarwydd iddynt, ac nad oedd staff yn gweithio o fewn systemau rheoli cadarn.

Er gwaethaf yr uchod, dywedodd y rhan fwyaf o bobl wrthym eu bod yn fodlon ar safon y gofal a dderbynient yn y practis a'u bod wedi cael digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn yr holiaduron cleifion yn gadarnhaol ynglŷn â'r gofal yn y rhan fwyaf o feysydd.

Fodd bynnag, ni allem fod yn sicr bob amser bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn modd cyson a chyda'r bwriad i sicrhau lles a diogelwch pobl, ac, ar ddiwrnod yr arolygiad, ni allem fod yn sicr bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol.

Gallai staff a phobl sy'n defnyddio'r practis fod yn sicr bod yr adeilad yn ddiogel a bod preifatrwydd pobl yn cael ei ddiogelu.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Ar y cyfan, dywedodd y rhan fwyaf o bobl wrthym eu bod yn fodlon ar safon y gofal a dderbynient yn y practis a'u bod wedi cael digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn yr holiaduron cleifion yn gadarnhaol ynglŷn â'r gofal yn y rhan fwyaf o feysydd.

Cyn yr arolygiad, gofynasom i'r practis ddosbarthu 20 o holiaduron (AGIC) i gleifion, mewn ymgais i gael barn pobl ynghylch y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Yn ogystal, buom yn siarad â nifer fach o bobl (pedwar) a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad.

Cafodd 20 o'r holiaduron eu dychwelyd. Roedd y bobl a gwblhaodd yr holiaduron a'r rhai y siaradwyd â hwy wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth am gyfnod o rhwng chwe mis a 34 mlynedd. Nododd pob un (24 o bobl) fod tîm y practis yn gwneud iddynt deimlo fel arfer bod croeso iddynt, gan wneud sylwadau fel y canlynol:

*“mae awyrgylch braf yn y practis, ac mae'r staff a'r ystafelloedd
aros yn fodern ac yn gyfforddus”*

a

*“Dyma'r practis gorau yr wyf erioed wedi bod iddo, ac rwyf yn hapus iawn
gyda'r gwasanaeth a gaf.”*

Roedd y rhan fwyaf o bobl (23) yn teimlo eu bod yn rhan o wneud penderfyniadau am eu gofal, gyda dim ond un person yn dweud nad oedd digon o wybodaeth am eu triniaeth. Oherwydd gwahanol safbwyntiau, teimlai'r unigolyn hwn nad oedd y gofal a gawsai “y rhai gorau”. Trwy archwilio sampl o gofnodion cleifion a chael sgysiau gyda dau o'r deintyddion, datgelwyd dulliau gwahanol o weithio. Cadarnhaodd un deintydd fod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod gyda chleifion yn dilyn ymgynghoriadau. Dangosodd cofnodion y deintydd hwn eu bod wedi cael eu diweddarau ar ôl pob ymweliad, gan fanylu ar y driniaeth y rhoddwyd i gleifion yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Ond er y dywedodd yr ail ddeintydd fod cynlluniau triniaeth yn cael eu trafod gyda phobl, nid oedd hyn yn amlwg yng nghofnodion y deintydd hwn. Dangosodd trafodaeth gyda rheolwr y practis nad oes gan bobl gynllun triniaeth y gallant ei fynd ag ef i ffwrdd i'w ddarllen.

Argymhelliad

Rhaid i bawb fod â chynlluniau deintyddol ysgrifenedig ar gyfer pob cwrs o driniaeth. Hefyd, rhaid i'r cynlluniau gael eu diweddarau os bydd y driniaeth yn newid.

Awgrymodd ymatebion i'r cwestiwn ynglŷn â sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau na fyddai hanner y bobl yn gwybod sut i gael gafael ar ofal pan oedd y practis ar gau. Dim ond nodyn bach oedd ar y drws ffrynt, yn anodd iawn ei weld, ac roedd hwn yn rhoi rhif ffôn i'w alw yn achos argyfwng. Dywedodd rheolwr y practis y gellid cysylltu â'r deintydd ar alwad trwy Galw Iechyd Cymru neu drwy ffonio rhif a oedd ar gael ar beiriant ateb y practis.

Argymhelliad

Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn gwneud y rhifau ffôn ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau yn hygyrch i bobl.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai pobl drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Golygai hyn y gallai pobl fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym pan fo angen. Nododd pymtheg o bobl eu bod yn fodlon â'r system hon ac nad oeddynt wedi profi oedi wrth drefnu amser apwyntiad. Dywedodd wyth o bobl eu bod wedi profi oedi, ond ychwanegasant:

“rhywfaint o oedi weithiau, ond fel arfer am reswm da”

“oedi, ond roedd yr amser aros yn dderbyniol”

Nid oedd ond un unigolyn a deimlodd nad oedd yr oedi yn dderbyniol.

Nodasom mai dim ond arwydd bach iawn (a oedd yn anodd ei ddarllen ar gyfer pobl â nam ar eu golwg) oedd ar y drws ffrynt i nodi oriau agor y practis.

Argymhelliad

Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn gwneud gwybodaeth ynglŷn ag oriau agor yn hygyrch i bobl.

Er y gellid gweld proses gwyno ar wal yr ystafell aros ar y llawr gwaelod, nid oedd hon yn gyfredol nac yn gyson â'r canllawiau yn “Gweithio i Wella”.² Pan ofynasom i bobl a fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu godi pryder, dywedodd y mwyafrif, 16 o bobl i gyd, na fyddent yn gwybod. Roedd wyth o'r

² Mae Gweithio i Wella yn disgrifio'r prosesau integredig ar gyfer codi, ymchwilio a dysgu o bryderon (cwynion). Mae pryderon yn faterion sydd wedi'u nodi yn sgil digwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff GIG Cymru, honiadau ynglŷn â gwasanaethau a ddarperir gan gorff sy'n gyfrifol yng Nghymru.

bobl yn dweud y byddent yn gwybod, ond nid oedd neb yn gwybod y gallent gysylltu AGIC. Nid oedd taflen wybodaeth ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth berthnasol ynghylch y practis, gan gynnwys sut i godi pryder (cwyn).

Argymhelliad

Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn gwneud taflenni gwybodaeth i gleifion (a ddylai amlinellu'r gwasanaethau a gynigir gan y ddeintyddfa, gan gynnwys y broses gwyno) yn hygyrch i bobl. Rhaid i'r taflenni fod yn gwbl gydnaws â'r trefniadau yn 'Gweithio i Wella'.

Pan holwyd ynghylch eu barn am y gwasanaeth cyffredinol a dderbynient, roedd bron pawb yn nodi eu bod yn fodlon, gan wneud sylwadau fel *“yn fodlon iawn”, “yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir”, “bob amser yn gwrtais ac yn ddymunol”* ac *“mae fy neintydd bob amser yno ar gyfer fy ngofal deintyddol, ac ni allaf ond canmol ei sylw i fanylion”*. Fodd bynnag, roedd un unigolyn nad oedd yn fodlon, gan ddweud wrthym yr oedd yn debygol mai hwn byddai ei ymweliad olaf i'r practis.

Yn ogystal ag ateb y cwestiynau a ofynnwyd, gwnaeth rhai pobl sylwadau ac awgrymiadau personol i wella'r gwasanaeth, gan gynnwys:

“Rwyf yn teimlo ei bod yn dda iawn ar gyfer y gymuned bod y practis hwn yn cymryd cleifion GIG. Rwyf yn teimlo bod rhaid i gleifion preifat a chleifion GIG gael eu trin yn gyfartal. Yn y practis hwn, byddai'n beth da gosod lifft risiau fel y gall pobl oedrannus gael mynediad i'r ystafell driniaeth lan llofft. Ar y cyfan, 8 allan o 10.”

Roedd trafodaethau pellach gyda staff, ynghylch mynediad i bobl lai abl, yn awgrymu y byddai trefniadau yn cael eu gwneud fel y gellid gweld pobl â phroblemau symudedd mewn un o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod.

Dywedodd unigolyn arall:

Yn ôl pob golwg, aeth y practis trwy gyfnod o amser pan oedd trosiant cyson o ran deintyddion, ac arweiniodd hyn at ddiffyg parhad ac anghytuno ynglŷn â chynlluniau gofal a thriniaeth. Ymddengys fod hyn wedi'i ddatrys yn ddiweddar.”

Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ni allem fod yn sicr bob amser bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn modd cyson a chyda'r bwriad i sicrhau lles a diogelwch pobl.

Cofnodion Cleifion

Roedd cofnodion yn cael eu cadw yn y practis ar gronfa ddata gyfrifiadurol, gyda rhywfaint o wybodaeth yn cael ei gadw ar ffurf cofnodion papur. Roedd craffu ar sampl o wyth o gofnodion deintyddol (h.y. pedwar cofnod cleifion ar gyfer pob deintydd yn gweithio yn y practis) yn dangos bod anghenion pobl yn cael eu hasesu, ond nad oedd eu gofal a'u triniaeth yn cael eu cynllunio a'u cofnodi mewn modd cadarn. Gwelsom nad oedd gan hanner y cofnodion hanes meddygol ysgrifenedig. Lle'r oedd hwn yn bresennol, nid oedd wedi cael ei lofnodi gan y claf. Roedd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflyrau meddygol yng nghofnodion y cleifion i gyd, ond dim ond mewn hanner y cofnodion oedd y manylion wedi'u hysgrifennu. Dim ond ar gyfer tri o'r wyth claf y cofnodwyd hanes deintyddol blaenorol; nid oedd gan un ohonynt hanes cymdeithasol a oedd yn cynnwys y defnydd o alcohol a thybaco. O ran cynlluniau triniaeth, gwelsom un a gofnodwyd, roedd pum claf heb un o gwbl, a barnwyd bod dau yn anaddas i gael cynllun triniaeth llawn. Dim ond tri o'r wyth oedd wedi rhoi eu caniatâd i dderbyn triniaeth, ac roedd hanner ohonynt yn unig wedi cael eu galw'n ôl yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).³

Argymhelliad

Ac eithrio hanes deintyddol blaenorol a hanes cymdeithasol (sy'n cael eu hargymell yn unig), mae cofnodi caniatâd cleifion ar gyfer triniaethau a'r cynlluniau gofal a thriniaeth y cytunwyd arnynt yn orfodol o dan 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' (2010), ac felly mae'n rhaid i'r cofnodion hyn gael eu cynnal.

Lle'r oedd pobl wedi cael radiograff (pelydr-x), prin iawn oedd y dystiolaeth bod y pelydr-x yn cael ei werthuso mewn modd clinigol. Hefyd, pan oedd anesthetig

³ Mae canllawiau clinigol NICE ar gyfer galw cleifion deintyddol yn ôl yn helpu clinigwyr i neilltuo cyfnodau penodol rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol i anghenion cleifion unigol.

Ileol (pigiad) wedi cael ei roi, ni chofnodwyd faint o anesthetig oedd y claf yn ei dderbyn ac ym mha le. Nid yw hyn yn sicrhau arfer diogel neu effeithiol.

Argymhelliad

Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â radiograffeg ac anesthetig lleol yn orfodol o dan 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' (2010), ac felly mae'n rhaid i'r cofnodion hyn gael eu cynnal.

Pan drafodasom ansawdd gwael y cofnodion gyda'r deintyddion, dywedodd un fod y rheswm am hyn oedd nad oedd y system gyfrifiadurol yn gweithio'n aml, ac na allai staff y dderbynfa bob amser sganio'r cynlluniau triniaeth i'w rhoi i bobl.

Storio Cyffuriau a Chyfarpar Argyfwng

Datgelodd archwiliad o'r ffordd yr oedd cyffuriau brys yn cael eu cadw yn y practis eu bod yn cael eu storio'n ddiogel. Canfuom hefyd fod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau lle mae'r dyddiad wedi dod i ben yn cael eu newid yn brydlon.

Roedd Swyddog Cymorth Cyntaf pwrpasol, ac roedd y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei storio y tu ôl i ddesg y dderbynfa, o fewn cyrraedd hawdd. Roedd y cyfarpar gofynnol mewn achos argyfwng ar gael, gyda rhai eitemau wedi'u storio ym mhob ystafell driniaeth yn ogystal ag o fewn y pecyn cymorth cyntaf.

Dadheintio

Datgelodd archwiliad o'r gweithdrefnau ar waith ar gyfer dadheintio offerynnau bod rhai mesurau priodol ar waith ond nad oedd llyfr cofnodion dyddiol i gofnodi'r gwiriadau a wnaed. Er enghraifft, nid oedd cofnod i ddilysu pob cylch golchi, nid oedd cynllun i ddefnyddio golchwr-diheintydd i lanhau a diheintio darnau llaw, na defnydd o offer glanhau pwrpasol. Bu trafodaeth gyda rheolwr y practis yn cadarnhau na chynhaliwyd unrhyw archwiliadau (gwiriadau) chwarterol yn rheolaidd mewn perthynas â gofynion rheoli heintiau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05).⁴ Er hynny, gwnaethom sylwi bod cyfleusterau pwrpasol ar gyfer golchi dwylo mewn mannau allweddol yn adeilad y practis.

⁴ <http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/decontamination2/?lang=cy>. Mae'r ddogfen WHTM 01-5 yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghylch dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis gynnal archwiliadau chwarterol o ofynion rheoli heintiau yn unol â WHTM 01-05 a sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau priodol o ran dadheintio.

Offer Radiograffeg

Nodwyd pryderon pellach yn dilyn craffu ar y ffeil Diogelu rhag Ymbelydredd. Er enghraifft, nid oedd unrhyw un wedi'i enwi fel cyngorydd diogelu rhag ymbelydredd, roedd ardaloedd a reolir heb eu nodi neu eu terfynu, nid oedd cofnod o lefelau ymchwilio i ddosau, ac nid oedd system sicrhau ansawdd ar gyfer ansawdd delweddu. Canfuom hefyd nad oedd unrhyw wiriadau ar yr offer ymbelydredd wedi'u hardystio. Mae'r ffaith hon wedi cael ei thrin hefyd yn adran Rheoli ac Arweinyddiaeth yr adroddiad.

Argymhelliad

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion cadarn yn cael eu cynnal mewn perthynas â chyfarpar radiograffeg a gweithdrefnau diogelu rhag ymbelydredd.

Rheoli ac Arweinyddiaeth

Ar ddiwrnod yr arolygiad, ni allem fod yn sicr bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol.

Er bod rheolwr practis profiadol yn gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad, dim ond yn ddiweddar yr oedd yr unigolyn hwn wedi dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod hir o absenoldeb. Yn y cyfamser, roedd perchnogaeth y practis wedi newid, a bu newidiadau sylweddol fel system electronig newydd, polisïau a gweithdrefnau newydd, a chyfrifoldebau ac atebolrwydd sefydliadol newydd. Roedd rheolwr y practis yn gweithio tri diwrnod yr wythnos, roedd yn gyfrifol am ddau bractis, ac roedd ganddo ddau reolwr cymorth (un ym mhob practis) a oedd yn gweithio ar ddau ddiwrnod arall yr wythnos. Roedd hyn yn sicrhau bod rheolwr ar gael trwy gydol yr wythnos waith.

Fodd bynnag, canfuom nad oedd y practis yn rhedeg mor effeithlon ag oedd angen iddo wneud er mwyn sicrhau bob amser gwasanaeth diogel ac atebol i bobl. Bu craffu ar ystod o bolisïau a gweithdrefnau yn dangos nad oedd y gwasanaeth yn cael ei ategu gan yr ystod o systemau rheoli a phrosesau sicrhau ansawdd a fyddai'n sicrhau bod gofal a thriniaethau i gleifion yn cael eu darparu mewn modd diogel ac amserol. Gwelsom fod rhai polisïau IDH, rhai polisïau Denticare, a rhai polisïau'r GIG. Nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u diweddarau'n flynyddol i sicrhau bod y cyfarwyddyd yn gyfredol. Gwelsom hefyd nad oedd cyswllt ar gyfer cymorth lechyd Galwedigaethol, a bu trafodaeth gyda rheolwr y practis yn awgrymu eu bod yn y gorffennol wedi dibynnu ar y Bwrdd lechyd am y cymorth hwn. Gwnaethom ofyn i'r trefniant hwn gael ei egluro gyda IDH ac i'r wybodaeth berthnasol gael ei gwneud ar gael i bob aelod o staff trwy arddangos poster. Cytunodd rheolwr y practis i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Argymhelliad

Mae angen i bolisïau a gweithdrefnau gael eu llunio'n benodol i bob deintyddfa, ac mae angen iddynt gael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod y cyfarwyddyd yn gyfredol.

Nid oedd gan y practis system i asesu barn pobl yn rheolaidd a gweithredu arni. Byddai system o'r fath yn sicrhau bod y practis yn cynnig gwasanaeth a oedd yn cwrdd ag anghenion ei boblogaeth a'i fod yn gwella'r gwasanaeth yn unol â barn pobl.

Argymhelliad

Dylai'r practis asesu barn pobl yn rheolaidd a gweithredu arni.

Defnyddiwyd pocedi plastig ar gyfer pob ffeil staff, ac nid oedd cysondeb o ran yr wybodaeth a gadwyd. Roedd y pocedi plastig yn cael eu storio gyda'i gilydd

mewn ffeil bocs. Roedd yn anodd archwilio rhifau cofrestru staff, diweddariadau clinigol, manylion personol, gwerthusiadau, neu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfredol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wiriadau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, contractau cyflogi neu raglenni cynefino / ymgyswrtu, sy'n orfodol o dan 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' (2010). Nid oedd gan un deintydd y Dystysgrif Ymbelydredd Ïoneiddio sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999. Ni welsom dystiolaeth o contractau cyswllt ar gyfer dau o'r deintyddion sy'n gweithio i IDH. Oherwydd difrifoldeb y diffyg gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac o beidio â chael Tystysgrif Ymbelydredd Ïoneiddio, anfonodd AGIC lythyr Sicrwydd ar Unwaith at y practis ar 16 Hydref 2014. Mae'r llythyr hwn yn gofyn i'r practis ymateb i AGIC (trwy gyfrwng cynllun gweithredu) o fewn saith diwrnod gwaith, gan fanylu ar sut y maent yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn.

Argymhelliad

Mae angen i systemau priodol fod ar waith i sicrhau bod gwybodaeth staff yn hawdd ei chyrru a'i hadolygu.

Er bod rhai aelodau o'r tîm staff wedi'u hen sefydlu, gyda rhai yn gweithio yn y practis am flynyddoedd lawer, canfuom hefyd y bu trosiant uchel o ran deintyddion yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac roedd hyn wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd, yn ei gyfarwydd, y gwasanaeth a gynigiwyd. Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion ar brydiau yn debygol o dderbyn gofal gan staff a oedd yn gyfarwydd iddynt.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod staff gweinyddol a nyrsio, ynghyd â deintyddion a rheolwr y practis, yn mynychu cyfarfodydd staff misol yn rheolaidd. Roedd y rhain yn gyfle i godi unrhyw faterion o bryder ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn cael eu defnyddio i gyfleu gwybodaeth newydd / berthnasol i'r tîm deintyddol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y cyfarfodydd hyn wedi cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y misoedd diwethaf, gyda staff yn awgrymu mai dim ond un neu ddau, yn ôl pob tebyg, oedd wedi cael eu cynnal eleni. Ar yr achlysur hwn, ni wnaethom edrych ar y nodiadau a gymerwyd yn y digwyddiadau hynny.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd i drafod ffyrdd newydd o weithio ac i rannu'r gwersi sydd wedi'u dysgu o'r pryderon a godwyd. Rhaid i'r cyfarfodydd hyn, gan gynnwys yr agenda, gael eu cofnodi a'u storio mewn ffeil.

Datgelodd archwiliad o amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis nad oedd system a phroses reoli addas ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael ei arolygu mewn modd amserol ag yn unol â gofynion gorfodol. Canfuom nad oedd Tystysgrif Diogelu Data gyfredol, na Phrawf Critigol Tair Blynedd ar gyfer offer belydr-x, dim cynllun ar gyfer diheintwyr golchi, dim archwiliadau rheoli heintiau, dim tystysgrif cofrestru labordy, dim poster iechyd a diogelwch, dim poster codi a chario, a dim tystiolaeth o'r offerynnau a ddefnyddiwyd o fewn yr amser wedi'i benodi ar gyfer eu prosesu. Nid rhestr gynhwysfawr yw hon, ond mae'n dangos bod meysydd sylweddol lle'r gellir gwella diogelwch offer (trwy ei gynnal a'i gadw'n well) ac arferion gwaith.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis roi system gadarn ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Dangosodd trafodaethau gyda staff fod Swyddog Cymorth Cyntaf wedi'i enwi, ond nad oedd unrhyw unigolion dynodedig â chyfrifoldeb dros lechyd a Diogelwch neu Ddadheintio.

Argymhelliad

Dylid nodi personél sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch a dadheintio.

Roedd trafodaethau pellach gyda staff yn dangos nad oedd archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cadarnhawyd hyn trwy graffu ar gofnodion deintyddol cleifion, lle nad oedd unrhyw dystiolaeth o archwiliadau clinigol a oedd wedi'u gwirio gan ddeintyddion. Roedd sôn, gan reolwr y practis, am fentor clinigol a gynhaliai archwiliadau; fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o'r gwaith a wnaed.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis gynnal archwiliadau clinigol mewnol er mwyn sicrhau cysondeb ac arferion diogel.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gallai staff a phobl sy'n defnyddio'r practis fod yn sicr bod yr adeilad yn ddiogel a bod preifatrwydd pobl yn cael ei ddiogelu.

Practis sefydledig yw Clinig Deintyddol Friars sydd wedi'i leoli yn Aberystwyth. Nid oes manau parcio pwrpasol ar gyfer ceir; fodd bynnag, roedd lleoedd parcio i geir ar hyd y ffordd ymyl yn agos i safle'r practis. Roedd hefyd maes parcio talu ac arddangos o fewn pellter cerdded byr.

Gall cleifion sydd ag anawsterau symudedd gael mynediad i adeilad y practis. Y rheswm am hyn yw bod yr adeilad yn hygyrch i gadeiriau olwyn trwy ddefnydd o ramp symudadwy y gellir ei osod dros brif gamau a chamau drws cyntaf y mynediad, sy'n arwain at y dderbynfa. Yn ogystal, mae rhai o'r ystafelloedd trin cleifion wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

Mae gan y practis dderbynfa ar y llawr gwaelod, tair ystafell driniaeth a man aros sy'n ymestyn dros ddau lawr, ac ystafell ddynodedig ar y llawr gwaelod ar gyfer y glanweithydd deintyddol. Roedd arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad yn cadarnhau bod maint y manau aros yn briodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd taith o gwmpas yr adeilad yn cadarnhau bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw yn foddhaol, yn fewnol ac yn allanol. Bu rhaglen ailaddurno yn ddiweddar, ac roedd rhai o'r ystafelloedd wedi cael eu paentio; nid oedd hyn yn cynnwys toiled y staff lan llofft, gan fod hwn yn parhau i edrych yn dreuliedig. Roedd yr ystafell hon hefyd yn gofyn am flwch gwaredu glanweithiol. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod mewn manau strategol, ac roeddynt wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd, gyda'r gwasanaeth nesaf yn ddyledus ym mis Hydref 2014.

Roedd y manau aros, yr ystafelloedd triniaeth a'r manau cylchredeg yn lân, yn daclus ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n foddhaol. Fodd bynnag, nid oedd ystafell y glanweithydd yn lân, a gwelwyd offerynnau yn gorwedd ar dopiau gwaith heb fod yn eu pecynnau dan sêl, ac roedd yr offerynnau yn y droriau yn cael eu storio mewn modd blêr.

Argymhelliad

Rhaid i'r glanweithydd sicrhau bod yr ystafell driniaeth yn cael ei chadw a'i chynnal i safon o lanweithdra sy'n dderbyniol er mwyn diogelu iechyd a diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae toiledau ar gael ar y llawr gwaelod, ac mae'r rhain yn cynnwys arwyddion priodol am olchi dwylo, sychwr poeth a thywelion papur. Fodd bynnag, nid oedd sebon ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelwyd bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer storio a diogelu cofnodion papur ac electronig yn ddiogel, gyda system gorfforaethol wrth gefn a leolir yn ganolog ar gyfer cofnodion electronig. Roedd rhagofalon diogelwch hefyd ar waith i atal mynediad heb awdurdod i fannau yn yr adeilad nad yw'n cael eu defnyddio gan gleifion. Roedd nodwedd diogelwch ychwanegol wedi cael ei gosod yn ddiweddar, ond nid oedd hon wedi'i rhoi ar waith eto.

Gwelwyd bod rhai rhannau o'r practis yn anniben, gyda blychau ac eitemau ar gadw ynddynt. Bu trafodaeth gyda rheolwr y practis yn dangos y gellid defnyddio ystafell lan llofft yn well er mwyn darparu storfa mewn amgylchedd diogel. Cytunodd rheolwr y practis fynd i'r afael â'r sefyllfa hon.

Roedd enwau, cymwysterau a manylion cofrestru pob deintydd sy'n gweithio yn y practis yn cael eu harddangos y tu ôl i ddesg y dderbynfa. Roedd rhestr o'r holl staff sy'n gweithio yn y practis, ond nid oedd yn ymddangos eu rhifau cofrestru a'u dynodiad.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis arddangos mewn modd amlwg rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu dynodiad a rhifau cofrestru lle bo hynny'n berthnasol.

Buom yn trafod trefniadau'r practis ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau, a chanfuom eu bod yn rhannu hwn ar system rota gyda deintydd lleol arall. Pan ofynnwyd sut yr oedd y trefniadau'n gweithio yng Nghlinig Deintyddol Friars, eglurwyd y byddai'r deintydd yn cyfarfod â'r claf ar amser a drefnwyd y tu allan i'r practis. Roedd ymchwiliadau pellach ynglŷn â'r trefniadau yn cadarnhau nad oedd derbynnydd neu nyrs ddeintyddol yn bresennol. Yn y sefyllfa hon, felly, roedd y deintydd yn weithiwr unigol. Ni ddylai'r trefniadau hyn barhau, a dylai'r practis drefnu i aelod priodol o staff fod yn gwmni i'r deintydd. Bydd hyn yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer y sawl sy'n cael ei drin a'r deintydd perthnasol.

Argymhelliad

Rhaid i'r practis sicrhau bod y nifer o staff sy'n cael eu cynnwys yn y rota y tu allan i oriau yn ddigonol i gynnal amgylchedd diogel.

Roedd contractau ar waith ar gyfer cael gwared â gwastraff clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus, ac roedd y bagiau a biniau yn cael eu cadw'n ddiogel.

6. Y Camau Nesaf

Oherwydd yr arolygiad hwn, bydd angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â phob un o'r pedwar maes yr oedd yr arolygiad yn eu hasesu. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pa bryd a sut yr eir ati i fynd i'r afael â'r canfyddiadau a wnaed yng Nghlinig Deintyddol Friars, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunwyd arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygiadau deintyddol.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Friars Dental

Dyddiad yr Arolygiad: 14 Hydref 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
Tudalen 7	Mae'n rhaid i bawb gael cynlluniau deintyddol ar gyfer pob cwrs o driniaeth, sy'n cael eu diweddarau os yw cynllun y driniaeth yn newid yn ystod y cwrs o driniaeth.	Cyfarfod practis i'w gynnal i sicrhau bod pob aelod o staff a phob clinigwr yn atgyfnerthu pwysigrwydd rhoi cynllun triniaeth ysgrifenedig i gleifion ar gyfer triniaeth GIG a thriniaeth breifat fel ei gilydd. Trafodir hefyd y bydd unrhyw newidiadau i'r cynlluniau hyn yn ystod y cwrs o driniaeth yn cael eu diweddarau yn y cynlluniau, a bydd cleifion yn derbyn copi newydd. Hysbysir cleifion bob tro ynglŷn â'r driniaeth sydd ei hangen, a chost y driniaeth gan gynnwys rhestr o opsiynau. Wrth fynd rhagddi, bydd Rheolwr y Practis yn gwneud hapwiriadau rheolaidd ar y cynlluniau triniaeth hyn er mwyn sicrhau eu bod	Rheolwr y Practis a Rheolwr Cefnogaeth Glinigol	Ar waith ers 20 Tachwedd 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		yn cael eu cwblhau ar gyfer pob claf, yn gywir ac yn drwyadl. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i unrhyw welliannau yn y dyfodol gael eu trafod â'r clinigwyr mewn sefyllfa un i un ac/neu mewn cyfarfodydd staff. Hefyd, bydd y Rheolwr Cefnogaeth Glinigol yn ymweld â'r practis er mwyn atgyfnerthu hyn.		
Tudalen 7	Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn gwneud y rhifau ffôn ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau yn hygyrch i bobl.	Dylid dangos manylion cyswllt y tu allan i oriau, naill ai ar y plac y tu allan i'r practis neu'n glir yn y ffenest er mwyn i gleifion eu gweld. Dangosir y manylion hyn yn yr ystafell aros hefyd.	Rheolwr Practis	23/02/15
Tudalen 7	Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn gwneud gwybodaeth ynglŷn ag oriau agor yn hygyrch i bobl.	Dangosir manylion ynglŷn ag oriau agor yn glir y tu allan i'r practis (yn debyg i'r uchod) a hefyd ar daflenni gwybodaeth cleifion a fydd ar gael yn y dderbynfa a'r ystafell aros..	Rheolwr Practis	23/02/15
Tudalen 8	Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn gwneud taflenni gwybodaeth i gleifion (a ddylai amlinellu'r gwasanaethau a gynigir gan y practis, gan gynnwys y broses gwyno) yn hygyrch i bobl. Rhaid i'r taflenni fod yn gwbl gydnaws â threfniadau 'Gweithio i Wella'.	Diweddarau taflenni gwybodaeth er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaethau a gynigir gan y practis, y broses gwyno a gwybodaeth ynglŷn â 'Gweithio i Wella' eu cynnwys. Bydd y taflenni hyn ar gael i gleifion yn y dderbynfa ac yn yr ystafell aros. Wrth fynd rhagddo, bydd Rheolwr y Practis yn sicrhau bod digon o daflenni er mwyn sicrhau eu bod ar gael i gleifion bob amser.	Rheolwr Practis	26/01/15

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				
Tudalen 10	Ac eithrio hanes deintyddol blaenorol a hanes cymdeithasol (sy'n argymhellion yn unig), mae cofnodi cydsyniad i'r driniaeth a'r cynlluniau gofal a thriniaeth y cytunwyd arnynt yn orfodol o dan Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru - Gwneud yn Dda Gwneud yn Well, ac felly mae'n rhaid gwneud hyn.	Cynhelir Cyfarfod practis â phob clinigydd i drafod pwysigrwydd cofnodi cydsyniad i driniaeth ar ddechrau pob cwrs o driniaeth ac ym mhob apwyntiad yn ystod y driniaeth. Llenwir ffurflenni cydsyniad cleifion i driniaeth y practis ar gyfer pob cwrs newydd o driniaeth. Cofnodir cydsyniad llafar a chydsyniad ysgrifenedig yng nghofnodion pob claf. Hefyd, bydd y Rheolwr Cefnogaeth Glinigol yn ymweld â'r practis er mwyn atgyfnerthu hyn. Caiff arolygiadau rheolaidd eu cynnal i sicrhau hyn.	Rheolwr y Practis a Rheolwr Cefnogaeth Glinigol	05/01/15
Tudalen 11	Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â radiograffeg ac anesthetig lleol yn orfodol o dan Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru - Gwneud yn Dda Gwneud yn Well 2010 ac felly mae'n rhaid cadw'r rhain.	Bydd clinigwyr yn creu cofnod pelydr-X ar gyfer pob sgan pelydr-X a wnaed gan gynnwys y raddfa, y lleoliad, deintiad a diagnosis. Bydd clinigwyr hefyd yn sicrhau y cynhwysir rhifau swp a dyddiadau dod i ben yn eu cofnodion clinigol wrth roi anesthetigion lleol. Cynhelir arolygiadau rheolaidd i sicrhau hyn. Hefyd, bydd y Rheolwr Cefnogaeth Glinigol yn ymweld â'r practis er mwyn atgyfnerthu hyn.	Rheolwr y Practis a Rheolwr Cefnogaeth Glinigol	05/01/15

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 12	Mae'n rhaid i'r practis gynnal archwiliadau anghenion rheoli heintiau yn chwarterol yn unol â Chofnod Iechyd Technegol Cymru 01-05 er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau priodol ar gyfer dadheintio.	Bydd Rheolwr y Practis yn cynnal Archwiliad y Gymdeithas Atal Heintiau (IPS) yn chwarterol er mwyn sicrhau bod y practis yn glynu wrth y safonau hanfodol o fewn canllawiau Cofnod Iechyd Technegol Cymru 01-05. Byddant hefyd yn cwblhau cynllun gweithredu IPS ac yn gweithio tuag at safonau 'arferion gorau' Bydd yr Arweinydd Croes-heintio yn gwneud gwiriadau rheolaidd mewn practisiau ac arsylwadau yn yr ystafell ddadlygru. Caiff pob gweithdrefn ddadlygru a phrawf diheintio ei gofnodi yn rhestrau gwirio a llyfrau cofnodion dadlygru'r practis. Rheolwr Datblygu'r Ardal i gyflawni gwiriadau Sicrhau Ansawdd a chefnogi'r cynllun gweithredu er mwyn i'r practis gyrraedd yr 'Arferion Gorau'.	Rheolwr y Practis, yr Arweinydd Croes-heintio a Rheolwr Datblygu'r Ardal	Archwiliad IPS wedi'i gwblhau ar 21/10/2014 – yr archwiliad nesaf i'w gynnal ym mis Ionawr. Rheolwr Datblygu'r Ardal i gynnal gwiriadau sicrhau ansawdd ym mis Rhagfyr
Tudalen 12	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y cedwir cofnodion manwl ynglŷn ag offer radiograffeg a gweithdrefnau amddiffyn rhag pelydredd.	Bydd y ffeil Amddiffyn rhag Pelydredd yn cael ei diweddarau i gynnwys gwiriadau offer ddwywaith y flwyddyn, gwiriadau dyddiol ar offer Radiograffeg. Bydd cofnodion Hyfforddiant Imer yn cael eu diweddarau gan RPS o fewn y practis. Caiff Archwiliadau Beirniadol ar bob peiriant pelydr-X eu cyflawni bob tair blynedd a chedwir cofnodion wedi'u diweddarau yn y practis. Caiff unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen yn sgil	Rheolwr y Practis	09/02/15

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Archwiliadau Beirniadol eu cyflawni ar unwaith. Caiff profion Lletem Grisïau eu cynnal ar bob peiriant pelydr-X yn ddyddiol.		
Arweinyddiaeth a Rheolaeth				
Tudalen 13	Mae'n rhaid i bolisïau a gweithdrefnau fod yn benodol i'r practis a chael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod y cyfarwyddyd wedi'i ddiweddarau.	Polisïau'r cwmni i gael eu diweddarau'n flynyddol a fersiynau wedi'u diweddarau i gael eu rhannu â staff a'u gweithredu gyda nhw. Dylid cyflawni polisïau'r cwmni sy'n disgwyl manylion sy'n benodol i'r practis.	Y Ganolfan Gefnogaeth a Rheolwr y Practis	23/02/15
Tudalen 13	Dylai'r practis asesu safbwyntiau pobl yn rheolaidd a gweithredu arnynt.	Dylid casglu adborth gan gleifion yn ddyddiol trwy ddefnyddio ffurflenni adborth. Bob mis dylai'r adborth gael ei ddadansoddi a'i rannu mewn cyfarfodydd practis. Dylid hefyd rannu gwersi a ddysgwyd a newidiadau o ganlyniad i adborth â chleifion.	Rheolwr y Practis	26/01/15
Tudalen 14	Mae angen system addas ar waith er mwyn sicrhau y gellir cyrraedd ac adolygu gwybodaeth staff yn hawdd.	Dylid dangos poster 'Cwrdd â'r Tîm' y practis er mwyn i gleifion ei weld. Dylai pob aelod o staff fod â ffeil bersonol sy'n cynnwys pob dogfen recriwtio (e.e. cymhwysra i weithio, dogfennau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, geirdaon, CV, imiwneiddiadau Hep B, arfarniadau ac ati) Dylai'r ffeiliau personol hyn gael eu trefnu a'u harchwilio'n rheolaidd gan gynnwys cofnod o	Rheolwr y Practis	05/01/15

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 14	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn trafod ffyrdd newydd o weithio a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy'r pryderon a godwyd. Mae'n rhaid cofnodi'r cyfarfodydd hyn gan gynnwys yr agenda a chadw'r cofnodion mewn ffeil.	dystysgrifau hyfforddi. Cyfarfodydd practis i'w cynnal unwaith y mis. Rheolwr y Practis i drefnu'r rhain ar gyfer y flwyddyn ymlaen llaw. Mae'n rhaid cadw cofnodion ar gyfer pob cyfarfod ac mae'n rhaid i'r agenda gynnwys adborth cleifion/canmoliaethau/cwynion ac unrhyw beth sydd wedi ei gofnodi ar Ddewisiadau GIG. Caiff gwersi a ddysgwyd a newidiadau a wnaed er mwyn gwella'n gwasanaeth eu cofnodi hefyd.	Rheolwr y Practis	20 Tachwedd – Cyfarfodydd Staff misol wedi'u trefnu ar gyfer 2015
Tudalen 15	Rhaid bod gan y practis system gadarn er mwyn sicrhau y cynhelir offer a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.	Bydd y Dystysgrif Diogelu Data yn cael ei diweddarau a'i dangos. Mae'r Prawf Beirniadol Offer Pelydr-X wedi'i gyflawni gan gwmni o'r enw DBG ac mae dystysgrifau yn y ffeil amddiffyn rhag pelydredd yn dystiolaeth o hyn. Caiff cynllun ar gyfer peiriannau golchi di-heintiol ei gynnwys yng nghynllun gweithredu IPS i sicrhau bod cynlluniau'r dyfodol yn dilyn arferion gorau. Mae archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cyflawni a chesglir dystysgrif cofrestru labordy o bob labordy a'i chadw ar ffeil. Mae poster diogelwch i'w weld yn yr ystafell staff a bydd poster codi a chario'n cael ei archebu a'i arddangos. Bydd yr Arweinydd Croes-heintio'n cynnal hapwiriadau ar fagio offerynnau i sicrhau bod stampio dyddiad 12 mis	Rheolwr y Practis	05/01/15

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		yn digwydd bob tro yn ystod y broses sterileiddio.		
Tudalen 15	Dylai fod personél dynodedig sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch a dadlygru.	<p>Rheolwr y Practis i oruchwylio cyfrifoldebau lechyd a Diogelwch a hefyd i sicrhau bod 2 aelod a staff wedi'u hyfforddi yn Farsialiaid Tân ac un mewn cymorth cyntaf.</p> <p>Rheolwr y Practis hefyd i benodi aelod arall o'r tîm yn Arweinydd Croes-heintio. Mae'n rhaid rhoi hyfforddiant i'r Arweinydd a thrafod a chofnodi'r swydd-ddisgrifiad/rolau a chyfrifoldebau.</p>	Rheolwr y Practis	23/02/15
Tudalen 15	Mae'n rhaid i'r practis gynnal archwiliadau clinigol mewnol er mwyn sicrhau arferion cyson a diogel.	Cyflawnir Archwiliadau Cerdyn Cofnod, Archwiliadau Presgripsiynau Gwrthficrobig, Archwiliadau Cyfeiriadau a'r Archwiliad IPS bob 6 mis, a'r canlyniadau i gael eu dadansoddi. Pe bai'r canlyniadau'n tynnu sylw at unrhyw broblemau lle mae angen gwella, bydd y Rheolwr Cefnogaeth Glinigol yn cwblhau ffurflenni 121 gyda'r clinigwyr a gosod cynlluniau gweithredu clir ar eu cyfer. Gellir ail-wneud yr archwiliadau hyn yn fwy rheolaidd er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau a bod y gwelliannau hynny'n barhaus. Bydd Rheolwr Datblygu'r Ardal yn cyflawni gwiriadau rheolaidd ar yr archwiliadau hyn hefyd.	Rheolwr y Practis, Rheolwr Cefnogaeth Glinigol a Rheolwr Datblygu'r Ardal.	26/01/15

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd yr Amgylchedd				
Tudalen 16	Mae'n rhaid i'r glanweithydd sicrhau bod yr ystafell driniaeth yn cael ei chadw a'i chynnal i safon o lanweithdra sy'n dderbyniol er mwyn diogelu iechyd a diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.	Rheolwr y Practis a'r Arweinydd Croes-heintio i ddarganfod pam mae'r glanweithydd yn cael trafferth wrth gadw a chynnal yr ystafell driniaeth i safon dderbyniol. Unwaith mae'r mater hwn wedi'i ddatrys dylid rhoi cymorth i'r glanweithydd i sicrhau bod glendid yr ystafell driniaeth yn cael ei gadw a'i gynnal i safon dderbyniol. Boed hynny trwy ddarparu nyrs ar ei gyfer i'w helpu i ddadheintio'r ystafell neu ganiatáu rhagor o amser rhwng cleifion at ati. Rheolwr y Practis a'r Arweinydd Croes-heintio i fonitro hyn a gwneud newidiadau i gefnogi'r glanweithydd.	Rheolwr y Practis a'r Arweinydd Croes-heintio	05/01/15
Tudalen 16	Mae'r practis i ddangos yn glir rhestr o bob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis, a'u rhifau penodiad a chofrestru lle mae'n berthnasol.	Mae'n rhaid arddangos y poster 'Cwrdd â'r Tîm' yn yr ystafell aros ac yn y dderbynfa. Mae'n rhaid i hyn gynnwys eu rhifau cofrestru ac ati.	Rheolwr y Practis	05/01/15
Tudalen 16	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod digon o staff wedi'u cynnwys ar y rota gwasanaeth y tu allan i oriau i sicrhau amgylchedd diogel.	Rheolwr y Practis i adolygu'r rotâu a thrafod yn bellach â Rheolwr Datblygu'r Ardal er mwyn cael rhagor o opsiynau o ran darparu staff. Rheolwr y Practis i gynllunio rotâu o leiaf un mis ymlaen llaw.	Rheolwr y Practis a Rheolwr Datblygu'r Ardal	05/01/15

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch):....Emma Holden.....

Teitl:Rheolwr y Practis.....

Llofnod:....E J Holden.....

Dyddiad:24 Tachwedd 2014.....